OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 523

# Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

## RHAN 3

## GWNEUD CAIS AM GYMORTH

### Ceisiadau am fenthyciad at radd feistr ôl-raddedig

**9.**—(1) Rhaid i berson ("y ceisydd") wneud cais am fenthyciad at radd feistr ôl-raddedig mewn cysylltiad â chwrs dynodedig drwy gwblhau a chyflwyno i Weinidogion Cymru gais ar unrhyw ffurf a chan ddarparu unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i benderfynu a yw'r ceisydd yn fyfyriwr cymwys.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd pa un a yw'r ceisydd yn gymwys i gael benthyciad at radd feistr ôl-raddedig ai peidio.

### Terfynau amser

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r cais gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o'r flwyddyn academaidd y mae'n cael ei gyflwyno ynddi.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fo'r ceisydd yn gwneud cais i ddiwygio swm y benthyciad at radd feistr ôl-raddedig o dan reoliad 12(3), rhaid i'r cais gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o'r flwyddyn academaidd y mae'n cael ei gyflwyno ynddi.

(3) Nid yw paragraffau (1) neu (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar ôl rhoi sylw i amgylchiadau'r achos penodol, na ddylai'r terfyn amser fod yn gymwys ac, yn yr achos hwnnw, rhaid i'r cais i ddiwygio'r swm gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach nag unrhyw ddyddiad a bennir ganddynt yn ysgrifenedig.

### Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad

**11.**—(1) I gael benthyciad at radd feistr ôl-raddedig, rhaid i fyfyriwr ymrwymo i gontract â Gweinidogion Cymru ar delerau sydd i gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gontract gael ei lofnodi gan fyfyriwr, mae llofnod electronig ar unrhyw ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru yn bodloni'r gofyniad hwnnw.